# HERBERT, Syr JOHN (1550 - 1617), gwr o'r gyfraith sifil, llysgennad, ac ysgrifennydd y wladwriaeth

**Enw:** John Herbert
**Dyddiad geni:** 1550
**Dyddiad marw:** 1617
**Priod:** Margaret Herbert (née Morgan)
**Rhiant:** Matthew Herbert
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gwr o'r gyfraith sifil, llysgennad, ac ysgrifennydd y wladwriaeth
**Maes gweithgaredd:** Cyfraith; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** Arthur Herbert Dodd

Ail fab Matthew Herbert (Abertawe) ac wyr Syr George Herbert, yr aelod seneddol cyntaf dros sir Forgannwg y gwyddys amdano a mab Syr Richard Herbert o Ewyas (gweler Herbert, ieirll Pembroke). Daeth yn aelod o'r Doctors' Commons (1573), yn gyd-gomisiynwr llys y llynges gyda Dr. David Lewis (1520? - 1584), ac yn 'Master of Requests' (gyda William Aubrey o 1590), 1586-1601. Cymerth ei D.C.L. yn Rhydychen ac yr oedd yn un o'r doethuriaid a ddewiswyd i 'ddadleu' gerbron Elisabeth pan ymwelodd hi â Rhydychen yn 1592. Oherwydd ei 'berffeithrwydd mewn ieithoedd' - ceir enghraifft o hyn yn y ffaith ei fod yn parhau i fod yn rhugl ei Gymraeg ar ôl treulio oes yn Lloegr - fe'i defnyddiwyd yn gyntaf i gwestiyno carcharorion rhyfel o wledydd eraill (1574), wedi hynny ar genhadaethau ynglyn â masnach yn Denmarc (1583 a 1600), Pwyl (1583-4), a Brandenburg (1585), ac ar genhadaethau gwleidyddol yn yr Iseldiroedd (1588) a Ffrainc yn 1598 gyda'r ysgrifennydd Cecil - bu'n ysgrifennydd i Cecil ar ôl iddynt ddychwelyd. Awgrymwyd ei ddewis fel llysgennad parhaol yn Ffrainc yn 1598 ac fel canghellor y Duchy of Lancaster y flwyddyn ddilynol, ond fe gafodd ei ddewis (Ebrill 1600) yn Ail Ysgrifennydd y Wladwriaeth (teitl cywrain a newydd), yn aelod o'r Cyfrin Gyngor (10 Mai), ac, yn gynnar wedi hynny, yn ysgrifennydd Cyngor y Gogledd (lle y gweithredai trwy gyfrwng dirprwy). Bu'n cynorthwyo llysgennad a anfonwyd i Ffrainc ynglyn â'r ymgynghori (na ddaeth dim ohono) gyda Sbaen yn Boulogne (Mai hyd Awst 1600), a chymerth ran ym mhrawf Syr Gelly Meyrick a rhai eraill y bu a fynnent â gwrthryfel iarll Essex (1601), cafodd ei wneuthur yn farchog ac yn aelod o'r Cyngor yn Llwydlo (1602), ac yr oedd allan o'r wlad ar ei drydedd genhadaeth i Ddenmarc (Medi 1602-Mawrth 1603) pan fu Elisabeth farw. Cafodd gadw ei swyddi o dan Iago I; yr oedd yn gomisiynwr mater yr uno â'r Alban ac yn gomisiynwr materion eglwysig yn 1603 ac ar gomisiynau eraill yn 1608; eithr gwell oedd gan y brenin, pan oedd Cecil i ffwrdd, weithredu trwy gyfrwng ysgrifenyddion answyddogol megis ei ffefryn Philip Herbert yr iarll Montgomery 1af wedi hynny. Ymhellach, pan symudwyd Cecil i Dy'r Arglwyddi, gosodwyd ar Herbert amddiffyn y polisi brenhinol yn Nhy'r Cyffredin; serch iddo fod yn aelod o'r ty hwnnw er y flwyddyn 1586 - dros fwrdeisdref yn Lloegr i gychwyn ac yna dros sir Forgannwg (1601) a sir Fynwy (1604-11) - nid ydoedd yn wleidyddwr. Pan fu farw ei noddwr a'i gydweithiwr Cecil (bellach yn iarll Salisbury) yn 1610, cafodd Herbert siom pan na chafodd ei ddilyn ef yn Brif Ysgrifennydd - cadwyd y swydd yn wag hyd 1614, ac er bod Herbert yn ysgrifennydd mewn enw ni bu â fynnai mwyach â materion cyhoeddus ac ni bu iddo eistedd yn Senedd 1614. Bu farw Gorffennaf 1617 yng Nghaerdydd ar ôl (efallai, oblegid canlyniadau) gornest ymladd rhyngddo ef a Syr Lewis Tresham. Trwy ei wraig Margaret, merch William Morgan, Cefn Coch (neu o Benclawdd), bu iddo un plentyn - merch.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

## Ffynonellau


*Calendar of State Papers, Domestic Series*, 1592-1617

*Acts of the Privy Council of England*, 1571-1616

*Reports of the Historical Manuscripts Commission*, Cecil, iii-xviii

McClure, *The letters of John Chamberlain* (Philadelphia 1939)

*Register of the University of Oxford* (1884–9), i, 43, 122, 230; iii, 146

Foster, *Alumni Oxonienses*, I, i, 695

*Llawysgrifau Dinas Powys yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* 105, 109, 124

*Llawysgrifau Penlle'rgaer yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*, B, parcel 3, No. 2

Froude, *History of England from the Fall of Wolsey to the Death of Elizabeth* (Llundain 1856-70), pen. xxxv

Florence Mary Greir Evans, *The Principal Secretary of State. A survey of the office from 1558 to 1680* (Manchester 1923)

D. H. Willson, *The Privy Councillors in the House of Commons 1604-1629* (Minneapolis 1940)

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 96

*Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1942, 19-20, 27

R. R. Reid, *The King's Council in the North* (Llundain 1921), 155

Coote, *Sketches of the Lives and Characters of Eminent English Civilians* (1804), 51, n

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 49069359

Wikidata: Q3809335

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu